**Enw'r Ysgol: Nebo** **Cyfeiriad: Ffordd Cors y Llyn, Nebo, Caernarfon**

## Addysg Grefyddol

### Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?

- Seilir yr hunan arfarniad ar arsylwadau gwersi, arfarniadau o waith disgyblion, asesiadau athrawon a chyfweliadau â disgyblion.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol) a chynnwys arfarniad o asesiadau athrawon ac/neu ganlyniadau arholiad.

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 1 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol; Arweiniad Llywodraeth Cymru: Pobl, Cwestiynau a Chredoau (2013), Canllawiau a Phroffiliau Enghreifftiol CA2 a CA3 (2011), 14-19 (2009).

**Safonau mewn Addysg Grefyddol – cynnydd mewn dysgu**

Mewn gwersi addysg grefyddol a gwaith Addysg bersonol a Chymdeithasol, rhoir digon o gyfleoedd i'r disgyblion i ddod yn ymwybodol o wahaniaethau o fewn y gymdeithas. Croesawir llawer iawn o ymwelwyr yn rheolaidd iawn i'r ysgol megis yr heddlu, nyrs, criw dioglelwch y ffordd a bydd hyn yn datblygu a chryfau eu dealltwriaeth o'r gymdeithas ehangach.

Mae pob plentyn yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ( dadansoddiad holiadur Medi 2017) a'u bod yn gwybod fod rhywun ar gael i wrando ar eu problemau neu ddefnyddio'r bocs gwrando sydd yn y cyntedd.Cadarnhawyd hyn gan holiaduron rhieni a theimlwn fel ysgol fod ganddom berthynas iach a chryf gyda'r teuluoedd.

**Safonau medrau llythrennedd, rhifedd, TGCh a meddwl**

Yn ystod gwersi AG gwelir fod cyfleoedd rheolaidd i ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd yn drawsgwricwlaidd. Enrgraifft ddiweddar o hyn oedd defnyddio grid lluosi a siap a gofod ar ol ymweld a'r capel lleol. Yn y cyfnod sylfaen mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio'u medrau rhifedd yn dda ac mae hyn i'w weld ar draws y cwricwlwm fel mat mathemateg Diwali a'r Bugeiliaid yn gwylio eu praidd.

Mae defnydd o dechnolgeg gwybodaeth mwyafrif y disgyblion yn dda wrth ymchwilio am wybodaeth yn ystod y gwersi.

**Materion i gael sylw**

Parhau gyda'r cyfleoedd a'r gofal.

| **Rhagorol** | | **Da** | x | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

### Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?

- Dylai hunan arfarniad ystyried y dangosyddion canlynol: yr amser a roddir i'r pwnc, gwybodaeth bynciol, arbenigedd a datblygiad proffesiynol yr athrawon, addasrwydd y rhaglen astudio ac amrediad yr adnoddau dysgu a ddefnyddir.
- Mae arfarniad o arsylwadau gwersi a gwaith disgyblion yn caniatáu i benaethiaid a phenaethiaid adran i ddod i farn am ansawdd yr addysgu mewn gwersi Addysg Grefyddol o fewn yr ysgol, a'r graddau y mae disgyblion yn cael eu cymell a'u hannog i gyrraedd safonau uchel.
- Dylai ysgolion cynradd gyfeirio at y ddarpariaeth 'Pobl, Credoau a Chwestiynau' ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn ogystal ag Addysg Grefyddol yn CA2.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol).

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adrannau 2.1 ac 2.2 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol, Arweiniad Llywodraeth Cymru: Pobl, Cwestiynau a Chredoau (2013), Canllawiau a Phroffiliau Enghreifftiol CA2 a CA3 (2011), 14-19 (2009.

**Yr addysgu mewn addysg grefyddol: cynllunio ac amrediad o strategaethau**

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhoddir cyfleoedd yn ein cynlluniau addysg grefyddol iddynt edrych a thrafod cwestiynau mawr bywyd, i gymharu a rhyfeddu, i ddeall arferion a phwysicrwydd credodau eraill, i ddeall eu rhan yn y darlun mawr, i ddeall eu rol yn nyfodol ein byd fel dinasyddion y dyfodol.<br>Yn y Cyfnod Sylfaen mae y rhan fwayf yn ymgyrraedd a deillian5 a 6 yn y maes Datblygiad Cymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol erbyn diwedd y cyfnod. | | | | | | | |
| **Darpariaeth ar gyfer y medrau: llythrennedd, rhifedd, TGCh a meddwl**<br>Mae'r cynlluniau gwaith yn ymgorffori gofynion statudol CC a'r FfLlRh yn briodol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer sicrhau fod y disgyblion yn cael proiadau cyfoethog ym maes Addysg Grefyddol yn rheolaidd er mwyn datlbygu dealltwriaeth yn drylwyr. | | | | | | | |
| **Materion i gael sylw**<br>Sicrhau fod adnoddau addas ar gael. | | | | | | | |
| **Rhagorol** | | **Da** | x | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |

## Addoli ar y Cyd

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?** | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ydy'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol?** | | | | | **Ydy** | | **Nac ydy** |
| **Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 2.3.1, 'Arweiniad atodol ar arolygu Addoli ar y Cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Medi 2010) , 'Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd' (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94), Canllawiau ynglŷn ag Addoli ar y Cyd (Cymdeithas CYSAGau Cymru, Mehefin 2012). | | | | | | | |
| **Nodweddion da mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**<br>Mae'r ysgol yn darparu'n fedrus ar gyfer agweddau ysbrydol. Trefnir cyfloeodd cyfoethog iddynt fyfyrio mewn sesiynau cyd addoli sy'n aml yn seiliedig ar staeaon o'r Beibl neu themau moesol.<br>Rhoddir pwyslias ar lais y plentyn yn y sesiynau addoli ar y cyd gan roi cyfle iddynt gymryd rhan yn ymarferol neu leisio barn.<br><br>Ychydig iawn o blant sydd wedi bod yn mynychu Ysgol Sul felly mae dathliadau Cristnogol a straeon o'r Beibl yn cael sylw rheoliadd yn yr ysgol.<br><br>Mae cynllun Addysg Bersonol ac amser cylch yn rhoddi cyfleoedd rheolaidd i drafod a myfyrio ar agweddau pwysig bywyd pob dydd. Mae hyn yn cryfhau'r ethos ofalgar a gwerthfawrogiad o amrywiaeth yn ein plith. | | | | | | | |
| **Materion i gael sylw mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**<br><br>**Trefnu fod Y Ficar neu Weinidog yn ymweld ar ysgol i roddi gwasanaeth rheoliadd.** | | | | | | | |
| **Rhagorol** | | **Da** | x | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |

Llofnod: B.Hughes (Pennaeth)

Dydddiad: 17/1/18